

## Tebyg yn dwyn ei debyg

*“Ac wrth iddynt ei labyddio, yr oedd Steffan yn galw, ‘Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd.’” (adn. 59)*

### Beth am ddarllen Actau 7:48–60 ac yna myfyrio

Rhaid i ni dreulio diwrnod arall yn meddwl am y ffordd y mae’r byd yn defnyddio’r gair ‘gobaith’ a’r modd y mae’r gair yn cael ei ddefnyddio yn yr Eglwys Gristnogol.

Mae gan yr arlunydd, G. F. Watts, lun sydd yn dwyn y teitl ‘Gobaith’. Mae’r llun yn darlunio gwraig hefo mwgwd yn eistedd ar sffêr, yn dal ei phen mewn un llaw ac yn dal telyn yn y llaw arall. Mae pob un o dannau’r delyn wedi torri ar wahân i un, a does ond un seren yn disgleirio yn yr awyr dywyll. Mae’r rhai sydd yn cael anhawster gyda symbolau yn cael anhawster deall yr ystyr. Mae’n debyg bod dau drempyn oedd wedi dod i mewn i’r galeri ryw ddiwrnod er mwyn dianc rhag yr oerfel wedi edrych i fyny ar y llun, a dywedodd y naill, “Gobaith? Pam y gelwir y llun yma yn ‘obaith?’” Atebodd y llall, wrth edrych ar y wraig yn eistedd ar y sffêr, “Mae’n debyg oherwydd ei bod yn gobeithio na fydd yn syrthio.”

Dyna sut mae llawer yn dehongli ‘gobaith’. Maent yn ei weld fel rhywbeth tlawd a gwag iawn. Ond mae’r gobaith sydd gennym ni fel Cristnogion am fywyd gwell y tu hwnt i farwolaeth wedi ei seilio ar atgyfodiad Iesu Grist. Nid yn unig mae Iesu yn cyhoeddi bywyd ar ôl marwolaeth, ond mae yn arddangos bywyd wedi marwolaeth.

Mae rhai’n mynnu fod y disgyblion wedi dwyn corff Iesu Grist tra oedd y milwyr yn cysgu. A yw’r disgyblion yr ydych yn eu hadnabod ar dudalennau llyfr yr Actau yn eich taro fel pobl fyddai’n cuddio cyfrinach dwyllodrus? A ydynt yn eich taro fel pobl a oedd yn dwyn cyrff? Na. Pobl oedd y rhain oedd yn mynd trwy bob math o filwriaeth a gwrthwynebiad, oedd yn canu mewn carchardai, oedd yn dawnsio wyneb yn wyneb ag angau. Pam? Ar gyfrif twyll? Nid yw’r math yma o dwyll yn cynhyrchu Haleliwia. Nid yw dwyn cyrff yn trawsnewid bywydau.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Jer. 17:1–8; Salm 31:24; 33:18; Eff. 1:18–20

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw canlyniad gobaith?
2. Beth oedd gweddi Paul dros yr Effesiaid?

### Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, mae dy atgyfodiad di yn rhoi gobaith i mi sydd yn obaith gwirioneddol. Ni allaf ddweud fy mod yn byw yng Nghrist ac yntau yn farw. Rwyf yn fyw yn rhywun sydd yn fyw, ynot ti, Arglwydd. Boed gogoniant i’th enw bendigedig. Amen.